



Cynllun Cyfeillio Cyngor Sir y Fflint 2018

Cyfleoedd Chwarae Cynhwysol

Mewn Partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned Lleol, Llywodraeth Cymru, Gweithredu Dros Blant ac Urdd Gobaith Cymru.

Mae Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi

1. Bod partïon yn cydnabod hawl y plentyn i ymlacio ac i amser hamdden, i ymgysylltu â chwarae a gweithgareddau hamdden sy'n briodol i oedran y plentyn a chymryd rhan yn rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.
2. Dylai partïon barchu a hyrwyddo hawl y plentyn i gymryd rhan lawn mewn bywyd diwylliannol ac artistig ac annog darparu cyfle cyfartal a phriodol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, artistig, a hamdden.

Yn Sir y Fflint, rydym yn ceisio darparu gwasanaeth seiliedig ar hawliau – 'Hawl Bob Plentyn!'

Yn Sir y Fflint, crëwyd 'Cynllun Cyfeillio', mewn partneriaeth, i gefnogi plant gydag anabledau a'u teuluoedd i alluogi mynediad i ddarpariaeth chwarae lleol, yn bennaf yn ystod darpariaeth rhaglen cynllun chwarae'r haf y sir. Yn 2018, mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ariannu gan yr awdurdod lleol mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, cynghorau tref a chymuned lleol ac Urdd Gobaith Cymru.

Bydd ein rhaglen cynllun chwarae'r haf yn cael ei darparu am o leiaf tair wythnos yn ystod yr haf (23 Gorffennaf, 2018 – 24 Awst, 2018, ddydd Llun i ddydd Gwener). Rydym yn cynnig sesiynau dwy awr mewn 58 o leoliadau ledled y Sir. Mae'r cynllun cyfeillio wedi'i ddatblygu i ddarparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc 3-15 oed a rhoi cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc 16 -25 oed.

Swyddogaeth y 'Cyfaill' cynllun chwarae yw gweithio fel aelod o'r tîm ym mhob lleoliad, gan gefnogi plant gydag anghenion ychwanegol yn ôl yr angen. Bydd y Cyfaill yn annog cyfranogiad mewn gweithgareddau cynllun chwarae ac yn gweithio'n agos gyda theulu bob plentyn.

Effaith

Rydym wedi monitro'r Cynllun Cyfeillio yn agos ers y cynllun arbrofol yn 2005. Mae rhai o'r sylwadau rydym wedi'u cael gan rieni a gofalwyr yn cynnwys:-

"Yn sicr, rydym bob amser yn hapus i weld T yn cael profiad cymdeithasol, mae'n un peth y mae rhieni gyda phlentyn ag anghenion arbennig yn poeni amdano, sut y bydd eich plentyn yn cael ei dderbyn gan eu cyfoedion"

"Helpodd fi i oroesi'r gwyliau haf, yr unig amser y gall M chwarae heb i mi fod yno, sy'n wych ar gyfer annibyniaeth M"

"Roedd yn golygu bod gennym amser i ni ein hunain, a D mewn dwylo diogel"

"Gwahaniaeth mawr, roedd y gwyliau'n llawer llai o straen ag y mae wedi bod yn y blynyddoedd blaenorol"

"Gwnaeth wahaniaeth i F gan ei bod hi wedi diflasu. Mae ganddi ffrindiau, ond gan fod angen i ni ei gwyllo drwy'r amser, ni all hi ymwneud cymaint â phlant eraill"

Prosiect P.A.L.S. (Cefnogi Chwarae a Hamdden yn Sir y Fflint)

Ar gyfer 2018, rydym wedi cael cyllid ychwanegol o'r gronfa Teuluoedd yn Gyntaf (Llywodraeth Cymru) mewn partneriaeth â 'Gweithredu dros Blant' i gefnogi plant a phobl ifanc 12 – 25 oed i gael mynediad i'w hawl i weithgareddau chwarae, diwylliannol a hamdden. Cysylltwch â'n tîm gael rhagor o fanylion.

Prosiect Kicks for Kids – Rhoi cyfleoedd i bob plentyn chwarae pêl-droed

Datblygwyd Kicks for Kids ers 2016 i ddarparu sesiynau hyfforddi pêl-droed i bob plentyn, waeth beth fo'u gallu i dalu, eu rhyw, ethnigrwydd neu anabledd. Bydd pob sesiwn yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd llawn hwyl. Anogir bob plentyn i ddatblygu sgiliau fesul cam, ac ar eu cyflymder eu hunain. Mae Kicks for Kids yn annog plant i fagu hunanhyder a gwella hunan-barch, wrth i sesiynau fynd rhagddynt.

Cyflogir 15 Cyfaill ar gyfer haf 2018, yn ogystal â'n tîm chwarae cymunedol a all ddarparu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

I gael rhagor o fanylion am ein prosiectau, cysylltwch â Janet Roberts – Swyddog Datblygu Chwarae Sir y Fflint
01352 (744034) Janet.roberts2@flintshire.gov.uk